Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA(P)VG/2330/18

Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

9 Gorffennaf 2018

Annwyl Dai,

Wedi adolygu'r dystiolaeth a roddwyd ichi ac aelodau'r pwyllgor mewn ymateb i'r argymhellion a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor yn ystod ei ymchwiliad i'r adroddiad ar y defnydd o 'use of antipsychotic medication in care homes' roeddwn yn teimlo y byddai tystiolaeth bellach yn ddefnyddiol o ran hybu dealltwriaeth.

O ran argymhelliad 3 hoffwn atgyfnerthu ein cefnogaeth i'r dull gweithredu eang o addasu'r gofal y mae person â dementia yn ei gael i asesiad o'i anghenion sy'n canolbwyntio ar ei anghenion. Hon yw thema greiddiol y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia a gyhoeddwyd ym mis Chwefror. Er hynny, rydym yn teimlo na all un offeryn wedi'i safoni adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau unigol pob person. Dyna paham yr amlinellais yn fy ymateb mai ein blaenoriaeth fydd meithrin cyd-ddealltwriaeth o egwyddorion gyda'n rhanddeiliaid. Bydd hyn yn edrych ar sut y mae cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y person, sy'n cefnogi dulliau gweithredu cadarnhaol o ran trallod ymddygiadol, yn cael eu datblygu.

Yn fy ymateb cynharach ichi nodais y byddwn yn gwrthod argymhelliad 9; er hynny, roeddwn yn meddwl y byddai o ddefnydd darparu'r rheswm dros ei wrthod. Mae'r sector cartrefi gofal yn gymhleth a theimlir y byddai amrywiaeth o ddulliau i benderfynu ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol priodol i gyd-fynd ag angen y cleient yn well nag un dull penodedig.

Yn fy ymateb gwreiddiol cyfeiriais ar Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 gan ddarparu rhywfaint o fanylion am y Rheoliadau a'r canllawiau sydd ynghlwm wrthynt. Nodir hefyd ei bod yn ofynnol i bob cartref gofal fod â datganiad ffurfiol o ddiben. Mae hwn yn disgrifio cwmpas y preswylwyr o safbwynt niferoedd a math o wasanaeth. Mae'r datganiad hefyd yn diffinio lefel o aciwtedd ac fe ddylai, er enghraifft, gyfrif am achosion lle y gallai fod ar bobl sy'n byw gyda dementia angen mwy o gymorth. Ni

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fyddai modd sicrhau amrywiad o'r fath mewn aciwtedd trwy un dull gweithredu. Trwy ddatblygu'r datganiad hwn o ddiben fe ddylai ystyriaeth o'r cymysgedd sgiliau ddilyn.

Dylwn gyfeirio hefyd at Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Mae adran 25A o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn nodi'r ddyletswydd ar fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i roi sylw i ddarparu lefelau staff nyrsio digonol i ganiatáu amser i ofalu am gleifion yn sensitif. Mae hefyd yn egluro lle mae gwasanaethau nyrsio'n cael eu darparu yn uniongyrchol a lle maent yn cael eu contractio neu eu comisiynu fel yn achos nyrsio mewn cartrefi gofal.

Mae'r berthynas rhwng y ddwy ddeddf, gyda'r ddyletswydd ar fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i roi sylw i lefelau staff nyrsio wrth gomisiynu cartrefi gofal a'r gofyniad i gartrefi gofal ddangos a chyhoeddi eu staffio, yn rhoi fframwaith cyfreithiol cryf i sicrhau staff nyrsio priodol mewn cartrefi gofal.

Hoffwn achub y cyfle hwn hefyd i dynnu sylw at y gwaith sy'n mynd rhagddo. Mae asesiad sylfaenol a gomisiynwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio, ar ffurf adolygiad llenyddiaeth helaeth, wedi cael ei gwblhau, o dan oruchwyliaeth Prifysgol Bangor. Daeth ei ganfyddiadau i'r casgliad na fyddai un offeryn sengl sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn nodi'r niferoedd a'r math o staff a ddylai gael eu cyflogi yn y sector cartrefi gofal. Mae'r Prif Swyddog Nyrsio'n comisiynu gwaith pellach i gefnogi comisiynwyr lleoliadau yn y sector. Bydd y gwaith hwn yn tynnu ar yr hyn a ddysgwyd hyd yn hyn o weithredu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ac o waith Uned Genedlaethol y GIG ar Gomisiynu Cydweithredol ar gartrefi gofal.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services